**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**
**Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref KS/01977/17
Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

21 Mehefin 2017

Annwyl Mike

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 2 Mehefin ynghylch Deiseb P-05-690: Arwynebu Ffordd A40 Rhaglan-y Fenni. Diolch hefyd am anfon ataf sylwadau diweddaraf y deisebwyr a Nick Ramsay AC.

Fel yr eglurwyd mewn ymatebion blaenorol, nid yw oes yr A40 wrth y lleoliad hwn wedi dod i ben, ac ar hyn o bryd nid oes cynlluniau i osod wyneb newydd arni. Serch hynny, yn y flwyddyn ariannol bresennol bydd gwaith yn dechrau i gynllunio mesurau lliniaru sŵn ar gyfer rhan Blaenoriaeth 1 o gylchfan ffordd yr A40/Brynbuga. Disgwylir gweithredu yn 2018/19, gan ddibynnu ar y cyllid sydd ar gael ac yn unol â blaenoriaeth y cynlluniau eraill yn y rhaglen. Fel arfer mae mesurau eraill, megis gosod ffensys sŵn, yn lleihau sŵn yn y tymor hir yn well na gosod wyneb newydd a all fod yn llai effeithiol dros amser.

Adolygir y rhestr flaenoriaeth bresennol hefyd yn ystod y flwyddyn ariannol hon ar ôl cynnal arolwg sŵn newydd o'r rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd. Mae'n bwysig nodi, felly, y gallai blaenoriaethau newid a gallai rhannau newydd o gefnffordd ddod yn rhan o'r rhaglen.

Yn gywir,

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.